# Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu - Adroddiad Cynnydd Hydref 2014 (eitemau sy'n weddill o fis Medi 2014 yn unig)

| Ardal Gwella | Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen | Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|---|---|
| **Materion Llywodraethu Arwyddocaol** | | | | |
| Darparodd ein gwasanaeth Archwilio Mewnol adroddiad beirniadol ar gaffael gwasanaethau adeiladu sy'n tynnu sylw at nifer o wendidau, gan gynnwys bod ein strategaeth gaffael wedi dyddio. Dengys archwiliad dilynol diweddar yr Archwilwyr Mewnol o'r cynllun gweithredu gwella, er ein bod wedi datblygu strategaeth ddrafft newydd a Rheolau Gweithdrefn Contractau, bod cynnydd o ran gwelliant yn araf ac ar ei hôl hi.<br><br>Hefyd wrth gaffael, rydym yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu rhai prosiectau allweddol, ond mae creu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol hefyd wedi ychwanegu at gymhlethdod trefniadau caffael ac arwain at golli staff i'r sefydliad newydd, gyda cholledion staffio pellach posibl.<br><br>Yr ydym yn ymwybodol ein bod yn cychwyn ar gyfnod allweddol mewn perthynas â chaffael strategol a'r prif newidiadau yr ydym yn eu gwneud; felly, bydd angen i ni adolygu'r maes hwn yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwelliannau a nodwyd yn cael eu gweithredu a bod y rhaglenni newid strategol yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus. | Mae'r Cyngor yn newid elfennau sylweddol o'i gaffael yn sylfaenol. Ym mis Mai 2014, cymeradwyodd y Cabinet uno timau caffael Sir y Fflint a Sir Ddinbych i greu tîm mwy, a mwy cadarn. Hefyd, cymeradwyodd symud tuag at reoli categori ar y cyd â Sir y Fflint a Gwynedd. | Pennaeth Cyllid ac Asedau | Tîm newydd yn ei le Gorffennaf 2014. Symud i Reoli Categori hyd at 2016. | **Ar y Gweill**<br><br>Bydd yr hysbysiad contract yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2014. Bydd Holiadur Cyn Cymhwyso (PQQ) ar gael ar yr adeg yma. Bydd y PQQ yn cael ei ddychwelyd ym mis Tachwedd 2014 gyda'r Gwahoddiad i Dendro (ITT) i gynigwyr ar y rhestr fer ym mis Rhagfyr 2014. Y dyddiad dychwelyd ar gyfer yr ITT yw diwedd Ionawr 2015 gyda phartner Rheoli Categori yn cael ei benodi ym mis Mawrth 2015. |

| Ardal Gwella | Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen | Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|---|---|
| **Cydraddoldeb** | | | | |
| Rydym yn parhau â'n gwaith i wella ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb. Ond canfu arolwg staff Archwilio Mewnol bod gwaith eto i'w wneud i wella ymwybyddiaeth o drefniadau cydraddoldeb corfforaethol. | Bydd y Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol (CEG) yn trafod yr adroddiad Archwilio Mewnol yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2014. Yn yr un cyfarfod, bydd y Grŵp yn ystyried cymeradwyo modiwl hyfforddiant e-ddysgu newydd ar faterion cydraddoldeb. Yn dilyn cymeradwyaeth, bydd y modiwl newydd yn cael ei gyflwyno. | Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio | Hydref 2014 | **Ar y gweill**<br>Mae CEG yn ystyried y modiwl E-ddysgu yn ei gyfarfod ar 14 Hydref 2014. Yna dylid ei gyflwyno yn gorfforaethol. Mewn ymateb i'r adroddiad Archwilio Mewnol, mae CEG yn rhagweld y bydd e-ddysgu yn cynyddu ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ar draws y Cyngor. |
| **Fframwaith Polisi** | | | | |
| Mae ein polisi amgylcheddol wedi dyddio ac nid oes gennym ddull corfforaethol ffurfiol tuag at reoli amgylcheddol a fyddai'n helpu i ddangos ein gwerthoedd a moeseg drwy ymrwymo i sicrhau ein bod yn helpu i gynnal, gwella a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy rŵan ac yn y dyfodol. | Ar hyn o bryd, nid oes cynlluniau i ailedrych ar ein polisïau presennol; ond, mae cynaladwyedd rŵan yn egwyddor graidd yn ein cynllunio cymunedol ac yn cael ei adlewyrchu yng Nghynllun Lles drafft Sir Ddinbych, sydd i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd 2014. | Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio | Tachwedd 2014 | Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i ddiweddaru'r polisi presennol. Dim camau pellach wedi'u cynllunio. |

| Ardal Gwella | Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen | Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|---|---|
| **Rheoliadau a Safonau** | | | | |
| Rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol o ran llywodraethu gwybodaeth yn ystod y flwyddyn; ond, rydym yn cydnabod bod gennym lawer o waith i'w wneud ond rydym wedi nodi hyn yn ein Strategaeth Rheoli Gwybodaeth, er enghraifft:<br>• datblygu modiwlau e-ddysgu ar gyfer sawl maes hyfforddiant;<br>• gwella'r fframwaith polisi mewn meysydd fel e-bost, rheoli cofnodion a diogelwch gwybodaeth;<br>• digideiddio catalogau a chasgliadau yn ein harchifau;<br>• gwella ein Cynllun Cyhoeddi a Logiau Datgelu;<br>• adolygu ac ymgorffori'r amserlen gadw corfforaethol; a<br>• chyflawni achrediad PSN gyfer 2014. | Byddwn yn parhau i weithredu'r Strategaeth Wybodaeth.<br>E-ddysgu ar ddiogelu data rŵan wedi'i sefydlu<br>Camau eraill parhaus | Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio | Y gwaith cyflwyno i'w gwblhau Medi 2014 | **Ar y gweill**<br>Mae hyfforddiant e-ddysgu diogelu data rŵan wedi ei gwblhau gan fwy na 1000 o aelodau o staff. Mae'r Rheolwr Gwybodaeth Corfforaethol yn parhau i gasglu ymatebion i ddeall lle mae bylchau yn y niferoedd.<br>Mae achrediad PSN wedi cael ei gyflawni ar gyfer 2014.<br>Mae achos busnes ar gyfer cyflwyno'r system e-bost ddiogel Egress ymhellach yn cael ei ystyried gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ym mis Tachwedd 2014.<br>Mae'r gwasanaethau rheoli archifau/cofnodion wrthi'n cael eu hadolygu, gyda chynnig i ehangu lefel y digido. |
| **Ymgysylltu â Budd-ddeiliad** | | | | |
| Nododd ein harolwg preswylwyr diweddaraf nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn teimlo eu bod wedi'u hysbysu'n dda am berfformiad y Cyngor a nifer o faterion eraill a ofynnwyd yn yr arolwg. | Byddwn yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth hawdd ei deall am berfformiad ar wefan y Cyngor. | Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio | Parhaus | Dim camau gweithredu pellach wedi'u cynllunio |

| Ardal Gwella | Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen | Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|---|---|
| Mae gwerth ymgysylltu busnes effeithiol newydd gael ei gydnabod, sy'n golygu bod gennym lawer mwy o waith i'w wneud cyn i ni weld y manteision sy'n deillio o ddatblygiadau diweddar. Mae angen i ni sicrhau bod cyfleoedd effeithiol ar gael i fusnesau roi adborth ar y gwaith o gyflawni'r Strategaeth / Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol a nodi'r hyn y mae angen i ni ei wneud i sicrhau bod ymgysylltiad â'r Cyngor yn weithgaredd gwerthfawr i fusnesau. Yn y tymor hirach, fel budd-ddeiliaid allweddol wrth gyflwyno'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer ein heconomi, mae angen i ni gynyddu cyfranogiad busnes wrth wneud penderfyniadau am y ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn buddsoddi cyllidebau ac adnoddau'r Cyngor i greu'r effaith economaidd mwyaf. | Bydd yr Arweinydd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn ymgymryd ag ymweliadau blynyddol â Grwpiau Busnes ac â'r 10 busnes mwyaf yn y sir er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi busnesau lleol a hwyluso cyswllt hawdd a hygyrch gydag unigolion uwch sy'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor. | Arweinydd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Cymunedol | Blynyddol | **I'w wneud**<br>Nid yw'r ymweliadau â'r 10 busnes mwyaf wedi'u cynnal eto. Rhoddwyd blaenoriaeth i gefnogi'r gyllideb/proses Rhyddid a Hyblygrwydd yn lle hynny. O ran ymgysylltu â busnesau yn fwy cyffredinol, mae cynnydd da yn cael ei wneud ar lefel weithredol drwy'r Tîm Datblygu Economaidd a'r prosiect Gwell Rheoleiddio sy'n cael ei arwain gan y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd. |
| | Arolwg blynyddol o fusnesau. Mae canlyniadau yr arolwg cyntaf wrthi'n cael eu casglu ar hyn o bryd a bydd yn cyfrannu at sut y byddwn yn gweithio gyda busnesau yn y dyfodol. | Rheolwr Datblygu Busnes ac Economaidd | Yn flynyddol ym mis Mehefin | **Wedi'i gwblhau**<br>Arolwg wedi'i gwblhau a'r canlyniadau yn cael eu dadansoddi ar gyfer rhoi gwybod a thrafodaeth yn y Bwrdd Rhaglen Uchelgais Economaidd. |